POBL IFANC

PWRPAS

OPTIMISTIAETH

Ein gweledigaeth yw lles cynaliadwy i bawb.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc i hyrwyddo lles trwy gyfuniad o gefnogaeth cymheiriaid, gweithdai a chyrsiau, cefnogaeth 1:1 a chyfleoedd gwirfoddoli.

Credwn fod gan bob person ifanc gryfderau cynhenid. Cysylltu â'r cryfderau yma yw lle mae'r gwaith yn cychwyn.

Rydym yn gweithio gyda phobl rhwng 14 - 25 oed mewn ystod o leoliadau i hyrwyddo lles.

Rydyn ni'n dod â phobl ifanc at ei gilydd fel eu bod nhw'n gallu cysylltu a rhannu eu profiadau ag eraill a allai fod yn wynebu heriau tebyg i'w rhai eu hunain.

Nid ydym yn ceisio 'trwsio' pobl, rydym yn gwrando ac yn gweithio gyda phobl ifanc i ddod o hyd i ffyrdd a strategaethau newydd sy'n helpu i hyrwyddo eu lles.

GOBAITH

EFFAITH

Nid oes angen diagnosis ar unrhyw un i gael mynediad i'n prosiectau, rydym yn gweithio gydag unrhyw un sy'n profi anawsterau.

Credwn ei bod yn bwysig i bobl ifanc wybod, beth bynnag maen nhw'n ei wynebu, nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain.

"Mae llesiant yn cynnwys ymdeimlad o bwrpas, optimistiaeth, gobaith, asiantaeth a chyfeiriad"

Shawn Ginwright
Hope, Healing, and Care

CYFEIRIAD

DYFODOL MWY DISGLAIR

DARGANFYDDWCH FWY
youngpeople@platfform.org
01656 647722

platfform.org

PLATFFORM

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol